



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

# Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu: Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru 2018–2019

1 Gorffennaf 2019 Rhif Adolygu 5

Cyfoeth Naturiol Cymru		
Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu i Weinidogion Cymru: Aseiad o Berfformiad yr Ymgynghorai Arbenigol		
Hanes y fersiynau o'r ddogfen		
Fersiwn o'r ddogfen	Dyddiad cyhoeddi	Statws
3.0	20/05/2019	Paratowyd y ddogfen data ddrafft gan dimau Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a Chynllunio Datblygu Gweithredol
4.0	19/06/2019	Adolygwyd y ddogfen ddrafft gan Fwrdd Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru
5.0	28/06/2019	Cyhoeddi'r adroddiad

## Crynodeb Gweithredol

### Ein gweledigaeth: Yn falch o arwain y ffordd i ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Mae'r system cynllunio defnydd tir yn fecanwaith cyflenwi strategol ar gyfer cyflawni gweledigaeth, amcanion a blaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rheoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghorai arbenigol yn y broses o reoli datblygiad. Mae hyn yn golygu y dylai ymgeiswyr, ac awdurdodau sy'n pennu'r ceisiadau cynllunio, ymgynghori â ni ar gynlluniau arfaethedig sy'n diwallu un neu fwy o'r meini prawf lle cawn ein nodi fel ymgynghorai arbenigol. Pan ymgynghorir â ni, rhaid inni ddarparu ymateb o sylwedd o fewn yr amserlenni a ragnodir.

Hefyd, fel ymgynghorai arbenigol, rhaid inni ddarparu adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru sy'n nodi ein perfformiad o ran darparu ymateb o sylwedd o fewn amserlenni statudol neu amserlenni a gytunwyd. Yr adroddiad blynyddol hwn yw ein trydydd adroddiad i Weinidogion Cymru ac mae'n nodi ein perfformiad yn y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cawsom 7,323 o ymgynghoriadau cynllunio a chyflwynom gyfanswm o 7,434 o ymatebion o sylwedd, a chafodd 98% o'r rhain eu cyflwyno o fewn yr amserlenni a ragnodwyd.

## Cynnwys

<b>Adran 1.0</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>7</b>
1.1	Ein Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu	7
<b>Adran 2.0</b>	<b>Materion Allweddol ym Mlwyddyn Adrodd 2018/19</b>	<b>8</b>
2.1	Materion allweddol	8
2.1.1	Gwasanaeth cyngori yn ôl disgrisiwn	8
2.2	Arolygon o gwsmeriaid	8
2.3	Ystyriaethau wrth adrodd	8
<b>Adran 3.0</b>	<b>Ein Hasesiad o'r Perfformiad</b>	<b>9</b>
3.1	Cyd-destun	9
3.1.1	Trosolwg o'r perfformiad	9
3.2	<b>Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)</b>	<b>11</b>
3.2.1	Trosolwg o'r perfformiad (ymgyngoriadau cyn ymgeisio ac ymgeisio statudol)	11
3.3	<b>Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgyngoriadau cyn ymgeisio statudol</b>	<b>11</b>
3.3.1	Cyfanswm yr ymgyngoriadau cyn ymgeisio statudol a gafwyd	11
3.3.2	Cyfanswm yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd i'r ymgyngoriadau cyn ymgeisio statudol	11
3.3.3	Amserlenni ar gyfer darparu ymateb o sylwedd i ymgyngoriad cyn ymgeisio statudol	11
3.3.4	Nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd y tu hwnt i'r 28 o ddiwrnodau neu unrhyw gyfnod arall a gytunwyd	12
3.3.5	Crynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion o sylwedd y tu hwnt i gyfnod a ragnodwyd neu gyfnod arall a gytunwyd	12

3.4	<b>Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriadau gan awdurdodau cynllunio lleol cyn rhoi caniatâd cynllunio</b>	12
3.4.1	Cyfanswm yr ymgynghoriadau a gafwyd	12
3.4.2	Cyfanswm yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd	12
3.4.3	Pryd cafodd yr ymateb o sylwedd ei gyflwyno i'r awdurdodau cynllunio lleol	13
3.4.4	Nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd y tu hwnt i'r cyfnod a ragnodwyd neu unrhyw gyfnod arall a gytunwyd	13
3.4.5	Crynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion o sylwedd y tu hwnt i gyfnod a ragnodwyd neu gyfnod arall a gytunwyd	13
3.5	<b>Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016</b>	14
3.5.1	Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriadau cyn ymgeisio statudol Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac ymgynghoriadau gan Weinidogion Cymru cyn rhoi caniatâd cynllunio	14
3.5.2	Cyfanswm yr ymgynghoriadau a gafwyd	14
3.5.3	Cyfanswm yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd	14
3.5.4	Pryd cafodd yr ymateb o sylwedd ei gyflwyno i'r ymgynghorydd	14
3.5.5	Nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd y tu hwnt i'r cyfnod a ragnodwyd neu unrhyw gyfnod arall a gytunwyd, a chrynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion o sylwedd y tu hwnt i gyfnod	15
<b>Adran 4.0</b>	<b>Myfyrio</b>	16
4.1	Arolwg o gwsmeriaid	16
4.2	Paratoi canllawiau a hyfforddiant	17
4.3	Cynnydd yn y prosiect gwella ar y cyd	17
4.4	Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru	20

## **Ffigurau**

Ffigur 1	Perfformiad Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru	10
Ffigur 2	Pryd cyflwynwyd yr ymateb o sylwedd	11
Ffigur 3	Pryd cyflwynwyd yr ymateb o sylwedd	13
Ffigur 4	Pryd cyflwynwyd yr ymateb o sylwedd	14
Ffigur 5	Pryd cyflwynwyd yr ymateb o sylwedd	15

## **Tablau**

Tabl 1	Crynodeb o'r rhesymau	12
Tabl 2	Crynodeb o'r rhesymau	13
Tabl 3	Cynnydd a wneir ar destunau ffrydiau gwaith fel rhan o'r prosiect gwella ar y cyd	17
Tabl A1	Categoriâu o resymau	21

## **Atodiadau**

Atodiad 1	Categoriâu o resymau dros ymateb y tu hwnt i'r amserlenni a ragnodwyd	21
-----------	--	----

# Adran 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Ein Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu

Mae'r system cynllunio defnydd tir yn fecanwaith cyflenwi strategol ar gyfer cyflawni gweledigaeth, amcanion a blaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rheoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Ymgynghorai statudol neu arbenigol o fewn y system gynllunio ydym ni, yn ystod y broses o greu'r cynllun datblygu ac yn ystod proses y cais cynllunio. Ein prif rôl yw darparu cyngor ar sut y dylai polisiau cynllunio a chynigion datblygu warchod a gwella'r amgylchedd a chaniatáu i'n hadnoddau naturiol gael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy.

Fel ymgynghorai arbenigol, rhaid inni gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru erbyn 1 Gorffennaf bob blwyddyn. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn darparu gwybodaeth am ein perfformiad o ran darparu ymateb o sylwedd i bob ymgynghoriad ar gais cynllunio o fewn amserlenni statudol ac amserlenni a ragnodwyd ac ar gyfer y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Nodir ein gofynion adrodd yn y canlynol:

- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012<sup>1</sup>
- Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016<sup>2</sup>

Rhaid inni adrodd ar y mesurau canlynol ar gyfer ymgynghoriadau cyn ymgeisio statudol ac ymgynghoriadau ar geisiadau i'r awdurdod cynllunio lleol:

- (a) Nifer yr achlysuron yr ymgynghorwyd â ni
- (b) Nifer yr achlysuron lle darparwyd ymateb o sylwedd
- (c) Pryd darparwyd yr ymateb o sylwedd
- (d) Nifer yr achlysuron y rhoddwyd ymateb o sylwedd gennym y tu hwnt i'r cyfnod a ragnodwyd neu fel y cytunwyd fel arall
- (e) Crynodeb o'r rhesymau dros beidio ag ymateb o fewn cyfnod a ragnodwyd

Gweler ein hasesiad blynyddol o'n perfformiad yn erbyn y dangosyddion a nodir uchod yn Adran 3.

Hefyd, ymgynghorir â ni am gyngor ar geisiadau cynllunio am gynlluniau nad ydynt yn ateb y meini prawf yr ydym yn ymgynghorai arbenigol ar eu cyfer o dan y gorchymynion rheoli datblygiad uchod. Er enghraifft, ymgynghorir â ni ar gynlluniau a allai effeithio ar dirweddau dynodedig neu rywogaethau a warchodir yn statudol.

Caiff hyn ei adlewyrchu yn ein Rhestr o Destunau Ymgynghori ar Reoli Datblygiad,<sup>3</sup> sy'n nodi pryd rydym am i awdurdodau cynllunio ac ymgeiswyr ymgynghori â ni.

<sup>1</sup>O.S. Rhif 801 (Cy.10) Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd yn 2015 ac yn 2016)

<sup>2</sup>O.S. Rhif 55 (Cy.25) Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016

<sup>3</sup>[Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymgynghoriadau Cynllunio \(Mawrth 2015\) \(Rhestr Wirio Blaenoriaethu Rheoli Datblygiad\)](#)

## Adran 2.0 Materion Allweddol ym Mlwyddyn Adrodd 2018/19

### 2.1 Materion allweddol

#### 2.1.1 Gwasanaeth cyngori yn ôl disgrisiwn

Rydym yn llwyr ymwybodol o fanteision ymgysylltu'n gynnar â datblygwyr er mwyn nodi ystyriaethau amgylcheddol a mynd i'r afael â nhw ar y cyfle cynharaf, gan helpu felly i osgoi oedi costus i benderfyniadau a sicrhau gwell canlyniadau amgylcheddol. Yn ogystal â'n gofynion statudol, rydym yn parhau i ddarparu [Gwasanaeth Cyngor Cynllunio yn ôl Disgrisiwn](#) ar gyfer meysydd dethol o gyngor arbenigol ac rydym yn ystyried y posibilrwydd o ymestyn y gwasanaeth hwn i feysydd arbenigol eraill o gyngor lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn meddu ar arbenigedd fel rhan o'n hadolygiad o'n cynllun codi tâl.

#### 2.2 Arolygon o gwsmeriaid

Rydym wedi gwrandao ar ein cwsmeriaid ynglŷn â sut y gellir gwella ein gwasanaeth ac rydym yn myfyrio ar ganfyddiadau ein harolwg diweddaraf yn Adran 4.0. Hefyd, rydym yn adrodd ar y cynnydd a wnaed o ran sawl ffrwd waith fel rhan o'r prosiect gwella ar y cyd. Bydd gwella ein gwasanaeth yn broses barhaus a byddwn yn rhoi'r diweddaraf yn adroddiadau blynyddol y dyfodol.

#### 2.3 Ystyriaethau wrth adrodd

Nodir yr wybodaeth i'w chynnwys mewn adroddiad blynyddol yn y gorchymyn rheoli datblygiad perthnasol. Fodd bynnag, ymgynghorir â ni am gyngor ar faterion nas rhestrir yn y gorchymynion rheoli datblygiad. Nid ydym yn cofnodi'r rhain ar wahân. Felly, mae'r adroddiad blynyddol hwn yn darparu data ar bob ymgynghoriad ar reoli datblygiad a gafwyd, ni waeth a yw'n ateb y meini prawf yr ydym yn 'ymgynghorai arbenigol' ar eu cyfer.

Er mwyn deall y rhesymau dros gyflwyno ein hymatebion o sylwedd y tu hwnt i'r terfyn amser, rydym yn adrodd ar y prif reswm dros ymateb hwyr.



## Adran 3.0 Ein Hasesiad o'r Perfformiad

### 3.1 Cyd-destun

Yn yr adran hon, rydym yn asesu ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion hynny a nodir yn y gorchmynion rheoli datblygiad, fel yr esboniwyd yn gynharach yn Adran 1.0.

#### 3.1.1 Trosolwg o'r perfformiad

Ceir cofnod o'n perfformiad cyffredinol ar gyfer y flwyddyn adrodd hon rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 yn Ffigur 1.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cawsom gyfanswm o 7,323 o ymgynghoriadau ar reoli datblygiad. O blith y rheiny, roedd 389 yn ymgynghoriadau cyn ymgeisio statudol a chafwyd 6,934 gan awdurdodau a oedd yn pennu cyn rhoi caniatâd.

Ymatebwyd i gyfanswm o 7,434 o ymgynghoriadau. Cyflwynwyd 7,258 o ymatebion o sylwedd o fewn terfyn amser statudol neu derfyn amser arall a gytunwyd. Cyflwynwyd 176 o ymatebion y tu hwnt i derfyn amser statudol neu derfyn amser arall a gytunwyd. Felly, cyflwynwyd 98% o'n ymatebion i ymgynghoriadau o fewn terfyn amser statudol neu derfyn amser arall a gytunwyd.

O gymharu â'n perfformiad yn 2017/18, mae nifer yr ymgynghoriadau cynllunio a gawsom wedi cynyddu 12% neu 767 o ymgynghoriadau. Rydym wedi nodi cynnydd o 9% (32) yn yr ymgynghoriadau cyn ymgeisio statudol a gafwyd a chynnydd o 12% (735) yn nifer yr ymgynghoriadau gan awdurdodau cynllunio.


Yn gyffredinol, bu cynnydd o 10% (659) yn nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd gennym o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym wedi gweld cynnydd o 11% (40) yn nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd yn ystod y cam cyn ymgeisio statudol a 10% (622) yn nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd i'r awdurdodau cynllunio.

Sylwch fod y gwahaniaeth rhwng yr ymgynghoriadau a gafwyd a'r ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd yn adlewyrchu'n rhannol y gwaith sydd ar y gweill pan ddaw terfynau amser a ragnodwyd o dan wahanol gyfnodau adrodd.

**Ffigur 1 Perfformiad Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru (Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, datblygiadau mawr a bach)**



- % o'r holl ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd o fewn amserlenni statudol neu amserlenni eraill a gytunwyd
- % o'r holl ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd y tu hwnt i amserlenni statudol neu amserlenni eraill a gytunwyd



### 3.2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)

#### 3.2.1 Trosolwg o'r perfformiad (ymgyngoriadau cyn ymgeisio ac ymgeisio statudol)

Mae'r adran hon yn nodi ein perfformiad o ran darparu ymateb o sylwedd o fewn terfynau amser a ragnodwyd ar gyfer pob ymgyngoriad ar gais cynllunio (yn hytrach na'r rheiny sy'n cynnwys Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol).

Dosbarthwyd y rhesymau dros gyflwyno ymateb o sylwedd y tu hwnt i gyfnod statudol yn bedwar prif gategori a gweler esboniad pellach ynglŷn â'r categorïau hyn yn Nhabl A1 yn Atodiad 1.

Cafwyd cyfanswm o 7,306 o ymgyngoriadau a chyflwynwyd 7,414 o ymatebion o sylwedd gennym. O blith y rheiny, bu 7,238 (98%) o'r ymatebion o sylwedd o fewn cyfnod statudol neu gyfnod a gytunwyd. Cyflwynwyd 176 ymateb o sylwedd i ymgyngoriad y tu hwnt i'r terfynau amser hyn.

### 3.3 Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgyngoriadau cyn ymgeisio statudol

Mae dyletswydd arnom i ddarparu ymateb o sylwedd i ymgyngoriad cyn ymgeisio statudol ar gyfer datblygiad mawr o fewn 28 o ddiwrnodau neu gyfnod arall a gytunwyd â'r ymgeisydd.

#### 3.3.1 Cyfanswm yr ymgyngoriadau cyn ymgeisio statudol a gafwyd


Cawsom 380 o ymgyngoriadau cyn ymgeisio statudol yn ystod y cyfnod adrodd.

#### 3.3.2 Cyfanswm yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd i'r ymgyngoriadau cyn ymgeisio statudol

Cyflwynwyd cyfanswm o 390 o ymatebion o sylwedd gennym o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau neu gyfnod arall a gytunwyd, sef 98% o gyfanswm yr ymatebion cyn ymgeisio statudol a anfonwyd.

#### 3.3.3 Amserlenni ar gyfer darparu ymateb o sylwedd i ymgyngoriad cyn ymgeisio statudol

**Ffigur 2 Pryd cyflwynwyd yr ymateb o sylwedd**



### Nifer yr ymatebion o sylwedd o fewn 28 o ddiwrnodau

Darparwyd ymateb o sylwedd gennym i 335 o ymgynghoriadau cyn ymgeisio statudol (84%) o fewn 28 o ddiwrnodau.

### Nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd o fewn cyfnod estynedig a gytunwyd

Ymatebwyd i 55 o ymgynghoriadau cyn ymgeisio statudol (14%) o fewn cyfnod estynedig a gytunwyd.

### 3.3.4 Nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd y tu hwnt i'r 28 o ddiwrnodau neu unrhyw gyfnod arall a gytunwyd

Cyflwynwyd deg ymateb o sylwedd i ymgynghoriadau cyn ymgeisio statudol (3%) y tu hwnt i gyfnod o 28 o ddiwrnodau neu gyfnod arall a gytunwyd.

### 3.3.5 Crynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion o sylwedd y tu hwnt i gyfnod a ragnodwyd neu gyfnod arall a gytunwyd

Fel rhan o'n dadansoddiad, rydym wedi adolygu deg ymateb o sylwedd a gyflwynwyd y tu hwnt i derfynau amser a ragnodir ac wedi nodi'r rhesymau dros beidio ag ymateb o fewn y terfyn amser. Ceir crynodeb o'r rhesymau a gofnodwyd yn Nhabl 1. Gweler mwy o fanylion ar y categorïau a nodwyd yn Nhabl A1 yn Atodiad 1.

**Tabl 1 Crynodeb o'r rhesymau**

Rheswm dros ymateb y tu hwnt i'r cyfnodau a ragnodwyd	Nifer yr ymatebion hwyr	Canran cyfanswm yr ymatebion hwyr
Gwybodaeth annigonol	0	0
Cynnig datblygu cymhleth	5	50%
Newidiadau busnes a chyfyngiadau ar adnoddau	5	50%
Cyfyngiadau o ran technoleg gwybodaeth	0	0
Cyfanswm	10	100%

## 3.4 Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriadau gan awdurdodau cynllunio lleol cyn rhoi caniatâd cynllunio

Mae'r adran hon yn nodi ein perfformiad o ran darparu ymateb o sylwedd i awdurdodau cynllunio lleol o fewn terfynau amser a ragnodir ar gyfer ceisiadau cynllunio. Mae dyletswydd arnom i ddarparu ymateb o sylwedd i ymgynghoriad gan awdurdod cynllunio lleol o fewn 21 o ddiwrnodau neu gyfnod arall a gytunwyd yn ysgrifenedig â'r awdurdod cynllunio lleol.

### 3.4.1 Cyfanswm yr ymgynghoriadau a gafwyd


Rydym wedi cael cyfanswm o 6,926 o ymgynghoriadau rheoli datblygiad gan awdurdodau cynllunio lleol yn ystod y cyfnod adrodd.

### 3.4.2 Cyfanswm yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd

Cyflwynwyd cyfanswm o 6,848 o ymatebion o sylwedd gennym o fewn cyfnod statudol o 21 o ddiwrnodau neu gyfnod arall a gytunwyd, sef 98% o gyfanswm yr ymatebion a gyflwynwyd gennym.

### 3.4.3 Pryd cafodd yr ymateb o sylwedd ei gyflwyno i'r awdurdodau cynllunio lleol

**Ffigur 3 Pryd cyflwynwyd yr ymateb o sylwedd**



#### *Nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd o fewn 21 o ddiwrnodau*

Cyflwynwyd 6,039 o ymatebion o sylwedd gennym (86% o gyfanswm yr ymatebion) o fewn cyfnod statudol o 21 o ddiwrnodau.

#### *Nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd o fewn cyfnod estynedig a gytunwyd*

Ymatebwyd i 809 o ymgynghoriadau (12% o gyfanswm yr ymatebion) o fewn cyfnod estynedig a gytunwyd.

### 3.4.4 Nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd y tu hwnt i'r cyfnod a ragnodwyd neu unrhyw gyfnod arall a gytunwyd

Cyflwynwyd 166 o ymatebion o sylwedd (2% o gyfanswm yr ymatebion) y tu hwnt i'r cyfnod statudol neu'r cyfnod estynedig a gytunwyd.

### 3.4.5 Crynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion o sylwedd y tu hwnt i gyfnod a ragnodwyd neu gyfnod arall a gytunwyd

Fel rhan o'n dadansoddiad, rydym wedi adolygu'r holl ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd y tu hwnt i derfynau amser a ragnodir ac wedi nodi'r rhesymau dros beidio ag ymateb o fewn y terfyn amser. Ceir crynodeb o'r rhesymau a gofnodwyd yn Nhabl 2. Gweler mwy o fanylion ar y categorïau a nodwyd yn Nhabl A1 yn Atodiad 1.

**Tabl 2 Crynodeb o'r rhesymau**

Rheswm dros ymateb y tu hwnt i'r cyfnodau a ragnodwyd	Nifer yr ymatebion hwyr	Canran cyfanswm yr ymatebion hwyr
Gwybodaeth annigonol	9	5%
Cynnig datblygu cymhleth	12	7%
Newidiadau busnes a chyfyngiadau ar adnoddau	113	68%
Cyfyngiadau o ran technoleg gwybodaeth	3	2%
Ni chofnodwyd rheswm dros fod yn hwyr	29	18%
Cyfanswm	166	100%

### 3.5 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016

Mae'r adran hon yn nodi ein perfformiad o ran darparu ymateb o sylwedd o fewn terfynau amser a ragnodwyd ar gyfer ymgynghoriadau cynllunio sy'n cynnwys Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

#### 3.5.1 Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriadau cyn ymgeisio statudol Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac ymgynghoriadau gan Weinidogion Cymru cyn rhoi caniatâd cynllunio

Mae dyletswydd arnom i ddarparu ymateb o sylwedd i ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol ar Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol o fewn 42 o ddiwrnodau (yn dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad gofynnol) neu gyfnod arall a gytunwyd yn ysgrifenedig â'r ymgynghorydd.

Hefyd, mae dyletswydd arnom i ddarparu ymateb o sylwedd i ymgynghoriad gan Weinidogion Cymru o fewn 21 o ddiwrnodau neu gyfnod arall a gytunwyd.

Ar gyfer y flwyddyn adrodd hon, nid ydym wedi cofnodi unrhyw ymgynghoriadau cydsyniad eilaidd gan na chawsom unrhyw geisiadau ffurfiol.

#### 3.5.2 Cyfanswm yr ymgynghoriadau a gafwyd

Cawsom gyfanswm o 17 o ymgynghoriadau a oedd yn cynnwys Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol: naw ymgynghoriad ar y cam cyn ymgeisio statudol ac wyth gan Weinidogion Cymru.


#### 3.5.3 Cyfanswm yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd deg ymateb o sylwedd ar y cam ymgynghori cyn ymgeisio statudol a deg ymateb o sylwedd i Weinidogion Cymru.

#### 3.5.4 Pryd cafodd yr ymateb o sylwedd ei gyflwyno i'r ymgynghorydd

### Ffigur 4 Pryd cyflwynwyd yr ymateb o sylwedd

Ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol ar Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol




*Nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd i ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol ar Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol o fewn cyfnod statudol o 42 o ddiwrnodau neu gyfnod arall a gytunwyd*

Darparwyd ymateb o sylwedd i naw (90%) ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol ar Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol o fewn y cyfnod statudol o 42 o ddiwrnodau ac un (10%) ymateb o sylwedd o fewn cyfnod estynedig a gytunwyd.

### **Ffigur 5 Pryd cyflwynwyd yr ymateb o sylwedd**

Ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio statudol am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol



*Nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru o fewn cyfnod statudol o 21 o ddiwrnodau neu gyfnod arall a gytunwyd*

Darparwyd ymateb o sylwedd i dri (30%) ymgynghoriad ar geisiadau am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol o fewn y cyfnod statudol o 21 o ddiwrnodau. Darparwyd saith (70%) ymateb o sylwedd i Weinidogion Cymru o fewn cyfnod estynedig a gytunwyd.

**3.5.5 Nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd y tu hwnt i'r cyfnod a ragnodwyd neu unrhyw gyfnod arall a gytunwyd, a chrynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion o sylwedd y tu hwnt i gyfnod**

Ni chyflwynwyd ymateb o sylwedd y tu hwnt i derfynau amser a ragnodwyd.

## Adran 4.0 Myfyrio

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i barhau i wella'r Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu sydd ganddo. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth, yn glir, yn ddiamwys ac yn gyson er mwyn helpu datblygwyr ac awdurdodau sy'n pennu i wneud penderfyniadau deallusol. Mae barn ein cwsmeriaid a'n partneriaid yn bwysig inni wrth inni weithio i wella ein gwasanaeth.

### 4.1 Arolwg o gwsmeriaid

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal arolygon o gwsmeriaid yn rheolaidd ar gyfer ei wasanaeth cynllunio a chyhoeddwyd canfyddiadau'r arolygon diweddaraf (2017/18) ar [wefan Cyfoeth Naturiol Cymru](#). Rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Mehefin 2018, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddau arolwg i sefydlu pa mor dda mae ei gyngor ar ymgynghoriadau cynllunio a chynlluniau strategol yn cael ei dderbyn gan awdurdodau cynllunio. Cynhaliwyd trydydd arolwg, gan ofyn i ddatblygwyr am eu safbwyntiau, yn dilyn hynny. Hefyd, rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr nodi sut y gellid gwella ein gwasanaeth.

Er y bu nifer yr ymatebion i'r arolygon hyn yn isel, bu'r adborth a gawsom gan staff awdurdodau cynllunio a datblygwyr ar y cyfan yn gadarnhaol. Nododd ein cwsmeriaid fod ein cyngor, yn eu barn nhw, wedi arwain at fwy o ganlyniadau cynllunio cynaliadwy. Yn gyffredinol, bu'r ddwy garfan yn fodlon â'r gwasanaeth a gawsant. Nododd yr ymatebwyr gyfleoedd am welliant, gan gynnwys angen i ddarparu gwell ymatebion gyda chyngor sy'n glir ac yn gyson ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru. O ganlyniad i hynny:

- Rydym yn gwneud gwelliannau trwy raglen y prosiect gwella ar y cyd (cyfeirier at adran 4.3 a Thabl 3). Mae ffrwd waith "llythyrau cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru" wedi ein galluogi i symleiddio ein llythyrau ymateb i ddefnyddio strwythur safonedig, sy'n gwahanu'n glir ein barn sy'n fwy perthnasol i benderfyniad cynllunio a sylwadau eraill, sy'n mynnu bod ymgeisydd yn cyfeirio atynt. Bydd angen i ddatblygwr roi sylw i faterion nad ydynt yn ymwneud â chynllunio neu faterion a reoleiddir o dan ddeddfwriaeth arall – er enghraifft, pan fydd angen cael trwydded amgylcheddol neu awdurdod priodol arall gennym ni.
- Byddwn yn parhau i nodi cryfder ein pryder ar ffurf sylwadau. Wrth wneud hyn, byddwn yn nodi'r pryderon hynny i'w goresgyn sy'n debygol o fod o bwys a mynnu datrysiad cyn pennu cais cynllunio a'r pryderon hynny y bydd yn fwy syml mynd i'r afael â nhw ac y gellir eu rheoli trwy gydsyniad amodol. Rydym yn bwriadu ymgymryd ag adolygiad pellach o gategorïau ein hymatebion o sylwedd yn ystod 2019/20.
- Rydym wedi datblygu amodau enghreifftiol, a fydd yn ein helpu i sicrhau bod yr amodau cynllunio rydym yn eu cynnig yn ein hymatebion o sylwedd yn gyson, yn berthnasol ac yn gymesur (cyfeirier at y canllawiau o dan adran 4.2).
- Byddwn yn parhau i rannu ein gwaith gyda'n cwsmeriaid, gan gynnwys Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru.



## 4.2 Paratoi canllawiau a hyfforddiant

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, er mwyn helpu i wella cysondeb ac eglurder ein cyngor, rydym wedi datblygu'r nodiadau canllaw gweithredol newydd canlynol ar gyfer staff Cyfoeth Naturiol Cymru:

- [Rhestr ddiwygiedig o destunau ymgynghori \(Medi 2018\)](#).
- Nodyn Canllaw Gweithredol 107, a fydd yn helpu i sicrhau bod y cyngor a ddarparwn ar gynllun datblygu yn gyson ledled Cymru.
- Mae Nodyn Canllaw Gweithredol 117 yn darparu canllawiau ar amodau cynllunio enghreifftiol ar draws detholiad o themâu, a fydd yn ein helpu i argymhell amodau i awdurdodau cynllunio.
- Mae Nodyn Canllaw Gweithredol 88 yn darparu canllawiau ar sut i ystyried effeithiau tirwedd ddynodedig wrth ymateb i ymgynghoriadau ar gynllunio a rheoli datblygiad.

Darparwyd hyfforddiant i staff Cyfoeth Naturiol Cymru ar broses yr Aseidiadau Rheoliadau Cynefinoedd.

## 4.3 Cynnydd yn y prosiect gwella ar y cyd

Mae'r prosiect gwella ar y cyd, a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cynllunio yng ngogledd Cymru, wedi nodi meysydd i wella'r ymgysylltu rhyngom. Caiff y prosiect ei oruchwylio gennym ni a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae ein cydweithrediad wedi sicrhau gwelliannau ar gyfer ein cwsmeriaid ar y cyd a nodir y cynnydd a wneir ar gyfer pob ffrwd waith yn Nhabl 3.

Tabl 3 Cynnydd a wneir ar destunau ffrydiau gwaith fel rhan o'r prosiect gwella ar y cyd

Ffrwd waith Pwnc	Amcan	Cynnydd
Perygl llifogydd	Treialu gweithdrefn ymgynghori i leihau nifer yr ymgynghoriadau ar reoli datblygiad 20%. Y nod yw lleihau swm y gwaith ofer wrth gyflwyno ac adolygu aseidiadau canlyniadau llifogydd pan geir datblygiad sy'n agored iawn i niwed ym Mharth C2 (ardaloedd o orlifdir heb amddiffynfeydd llifogydd sylweddol).	Cwblhawyd yn 2018/19: Cynhaliwyd treialon ag awdurdodau Ynys Môn, Wrecsam, Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Sir y Fflint.  Cwblhawyd yn 2018: Adolygiad canol blwyddyn.  Ar y gweill ym Mehefin 2019: Cyflwyno'r dull o weithio ledled Cyfoeth Naturiol Cymru.  Fel awdurdod cynllunio, mae Cyngor Caerdydd wedi mabwysiadu dull tebyg i leihau'r gwaith ymgynghori ag ymgynghoreion, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhoi mwy o bwyslais ar gamau rhagarweiniol	Bydd awdurdodau cynllunio yn nodi'r rheswm dros ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n dileu unrhyw ddyblygu ymdrech yn ystod y gwaith o gofnodi achosion a gwirio dilysrwydd.	Cwblhawyd yn 2018: Paratoi taflen wirio cyfyngiadau.  Myfyrio: Cyflwynwyd nifer isel o daflenni gwirio i Cyfoeth Naturiol Cymru, a allai fod o ganlyniad i ddull anorfodol.
	Galluogi ein cwsmeriaid i ddefnyddio data gofodol Cyfoeth Naturiol Cymru trwy ein tudalen we a'n dolenni sy'n berthnasol i restr wirio ein Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu.	Cwblhawyd yn 2018.
	Casglu rhestr o ganllawiau sydd ar gael i'n cwsmeriaid. Nodi unrhyw fylchau yn y canllawiau, gwirio argaeledd a hygyrchedd trwy ein gwefan.	Cwblhawyd yn 2018: Casglwyd rhestr o ganllawiau sydd ar gael i'n cwsmeriaid.  Ar y gweill 2019/20: Mewn sawl achos, mae angen diweddarau'r wybodaeth ar ein gwefan neu ar ein dogfennau canllaw.
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Egluro rolau a chyfrifoldebau Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cynllunio.	Cwblhawyd yn 2017/18: Egluro rolau a chyfrifoldebau (a osodir ar ffurf tabl).
	Datblygu paragraffau safonedig i helpu i strwythuro gwaith cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymatebion i ymgynghoriadau ar Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.	Cwblhawyd yn 2017/18: Paratowyd a gweithredwyd paragraffau safonedig gan dîm y Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu yng ngogledd Cymru.  Ar y gweill 2019: Mabwysiadir paragraffau safonedig ar draws holl dimau Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru.
	Gwella'r cyngor ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i egluro sut y gallwn gynorthwyo'r broses o benderfynu drwy gydol proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.	Ar y gweill 2019: Cyhoeddi eglurhad ar ein gwefan yn dilyn cymeradwyaeth Bwrdd y Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu.
Tirwedd	Darparu cyngor ar dirwedd i'r awdurdodau cynllunio.	Cwblhawyd yn 2018: Hyfforddiant ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac awdurdodau Gwynedd, Ynys Môn a Cheredigion.
	Darparu hyfforddiant a	

	chymorth i swyddogion awdurdodau cynllunio ar dirwedd.	Ar y gweill yn hydref 2019: Hyfforddiant ag awdurdodau Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.
Cyngor ecolegol lleol	Egluro rolau a chyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru ac ecolegwyr awdurdodau lleol.	Cwblhawyd yn 2018: Egluro rolau a chyfrifoldebau (a osodir ar ffurf tabl).  Ar y gweill 2019: Cyhoeddi eglurhad ar ein gwefan yn dilyn cymeradwyaeth Bwrdd y Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu.
	Egluro'r rolau a chyfrifoldebau rhwng awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru o ran: i. Rhywogaethau a chynefinoedd a nodir yn adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ii. Coetiroedd hynafol	Ar y gweill 2019: Egluro rolau a chyfrifoldebau.
Canllawiau amodau enghreifftiol	Datblygu cyfres o amodau enghreifftiol arfer gorau ar gyfer Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru a rhannu'r gwaith hwn â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a'r awdurdodau cynllunio yng Nghymru.	Cwblhawyd yn 2019: Paratowyd y canllaw gan Arup.  <a href="#">Mawrth 2019: Cymeradwywyd Nodyn Canllaw Gweithredol 117 gan Fwrdd y Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu.</a>  Ar y gweill 2019: Cyhoeddir y Nodyn Canllaw Gweithredol ar y fewnwyd ar gyfer staff Cyfoeth Naturiol Cymru. Gweithredir y Nodyn Canllaw Gweithredol gan dimau ein Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu ac fe'i rhennir â'u hawdurdodau cynllunio lleol.
Llythyrau cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru	Symleiddio llythyrau cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru at ddibenion rheoli datblygiad gan ddefnyddio strwythur llythyr safonedig wrth ymateb i ymgynghoriadau ar reoli datblygiad.	Cwblhawyd yn 2018.
	Gwahaniaethu'n glir rhwng materion cynllunio a materion	Cwblhawyd yn 2018.

	nad ydynt yn ymwneud â chynllunio mewn sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru.	
Rhywogaethau gwarchoddedig	Paratoi crynodeb o arolwg o rywogaethau gwarchoddedig a thempled ffurflen asesu i leihau unrhyw ddyblygu a gwrthdaro cyngor rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymgynghorwyr ecolegol awdurdodau lleol. Cymhellir cyflwyno'r ffurflen hon gydag adroddiad ar arolwg o rywogaethau gwarchoddedig ar sail anorfodol at ddibenion rheoli datblygiad yng ngogledd Cymru.	Cwblhawyd yn haf 2018: Mae <a href="#">templd ffurflen grynhoi ac asesu arolwg o rywogaethau a warchodir</a> ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.
	Datblygu matrices i'w ddefnyddio wrth nodi achosion isel ac uchel eu risg a'r ymateb priodol iddynt.	Ar y gweill 2019/20.
	Paratoi canllawiau lle nodir bylchau. Cyhoeddir canllawiau ar ein gwefan.	Ar y gweill 2019/20.

#### 4.4 Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru

Rydym yn parhau i gynghori Llywodraeth Cymru ar ei newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth gynllunio a chanllawiau a pholisi cynllunio cenedlaethol. Yn fwyaf nodedig, rhesom gyngor ar y newidiadau arfaethedig ym Mholisi Cynllunio Cymru (argraffiad 10) ac ar ei Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg.

Yn ogystal â hynny, roesom gyngor i Lywodraeth Cymru ar y canlynol:

- [ei gwaith o gyfuno Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref \(Dosbarthiadau Defnydd\) 1987 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref \(Datblygu Cyffredinol a Ganiateir\) 1995](#)
- [ei galw am dystiolaeth ar ddarparu tai trwy'r system gynllunio](#)
- ei newidiadau arfaethedig i'r broses cydsynio seilwaith newydd ac ar ei chynigion i gyflwyno Cydsyniad Seilwaith Cymru

## Atodiad 1 Categoriâu o resymau dros ymateb y tu hwnt i'r amserlenni a ragnodwyd

### Tabl A1 Categoriâu o resymau

Pan roddwyd ymateb o sylwedd y tu hwnt i gyfnod statudol neu gyfnod estynedig a gytunwyd, neu pan na roddwyd ymateb o gwbl, nodwyd ein rhesymau dros achos yn y categorïau hynny a ddisgrifir yn Nhabl A1 isod.

Categori	Esboniad
<b>Gwybodaeth annigonol</b>	Mae'r ymgynghorydd wedi darparu gwybodaeth annigonol i gefnogi ymgynghoriad ac i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ymateb yn llawn.
<b>Cynnig datblygu cymhleth</b>	Arfarniad manwl o gynnig datblygiad mawr a chymhleth pan eir i'r afael â pheryglon amgylcheddol sylweddol. Rhoddir cymorth i reolwyr achos cynllunio datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru gan eu timau arbenigol. Gallai hyn gynnwys trafodaeth a/neu ymweliad â'r safle gyda'r ymgynghorydd (awdurdod cynllunio lleol neu ymgeisydd). Mae angen gwybodaeth cyn ein hymateb o sylwedd.
<b>Newidiadau busnes a chyfyngiadau ar adnoddau</b>	Rheolir ymgynghoriadau gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg, lle blaenoriaethir llwyth gwaith i sicrhau bod ymdrechion Cyfoeth Naturiol Cymru yn canolbwyntio ar yr ymgynghoriadau sy'n debygol o beri'r pryder amgylcheddol mwyaf niweidiol neu'r elw mwyaf. Ni ddatblygir ymgynghoriadau o fewn amserlenni pan fydd newidiadau ym musnes Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys absenoldeb cyflogaion a diffyg argaeledd timau arbenigol i ddarparu arbenigedd, o ystyried cyfyngiadau ar adnoddau a blaenoriaethau.
<b>Cyfyngiadau o ran technoleg gwybodaeth</b>	Anawsterau o ran technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) pan fydd meddalwedd yn annigonol neu'n methu â gweithredu'n effeithlon, neu pan gaiff yr wybodaeth a geir ei phrosesu neu ei chofnodi'n anghywir.

Cyhoeddwyd gan:  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Ceir atgynhychu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru.